# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Mai 2014 i'w hateb ar 3 Mehefin 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)1699(FM)

2. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o adroddiad Sefydliad yr RAC am gyfraddau damweiniau ymysg gyrwyr ifanc? OAQ(4)1691(FM)

3. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithlu Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1683(FM)

4. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru? OAQ(4)1687(FM)

5. **Julie James (Gorllewin Abertawe)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i warchod a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1686(FM)

6. **Mick Antoniw (Pontypridd)**: Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o berfformiad y sector adeiladu yng Nghymru? OAQ(4)1695(FM)

**7. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pryd y bydd y Prif Weinidog yn cael ei gyfarfod nesaf â Phrif Weinidog yr Alban? OAQ(4)1682(FM)**W**

**8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(4)1684(FM)

**9. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fanteision aros yn rhan o'r UE i Gymru? OAQ(4)1689(FM)

**10. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am uwchgynhadledd NATO sy'n dod i Gymru eleni? OAQ(4)1690(FM)

**11. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)1696(FM)

**12. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Gronfa Cymorth Dewisol? OAQ(4)1688(FM)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud ynghylch a oes modd i'r dreth ystafell wely gael effaith gadarnhaol ar strategaeth i leihau tlodi plant? OAQ(4)1698(FM)

**14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth arall y gall y Prif Weinidog ei wneud i gael pob hil i fyw'n gytûn yng Nghymru? OAQ(4)1694(FM)

**15. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiau diwygio lles yn Nhorfaen? OAQ(4)1697(FM) **TYNNWYD YNOL**